**Polisi S4C ar Bobl Agored i Niwed**
Ionawr 2024

**CYNNWYS**


1. Cyflwyniad a Diben
2. Comisiynu
3. Cydsyniadau
4. Gallu
5. Gweithio gyda Phobl Agored i Niwed
6. Preifatrwydd
7. Anhysbysrwydd
8. Ộl - ofal
9. Gweithgarwch Ar-lein a'r Cyfryngau Cymdeithasol

Atodiad 1: Ffurflen Hunan Ddatganiad Diogelu Pobl Agored i Niwed

## 1. Cyflwyniad a Diben

1.1 Diben y Polisi hwn yw darparu arweiniad cyson a chlir ac amlinellu disgwyliadau S4C o ran sut y bydd S4C yn gweithredu i sicrhau bod Pobl Agored i Niwed yn cael llais o fewn amgylchedd cyfrifol sy'n gyson ag egwyddorion Côd Darlledu Ofcom. Er y lluniwyd y Polisi hwn ar sail cyfraith a chanllawiau perthnasol, nid yw wedi'i fwriadu i ddarparu cyngor cyfreithiol. Dylai cynhyrchwyr a chyflenwyr allanol geisio'u cyngor cyfreithiol eu hunain.

1.2 Dylai staff S4C (yn cynnwys pob cyflogai, staff llawrydd, asiantau, ymgynghorwyr, gwirfoddolwyr a phobl eraill sy'n gweithio ar ran S4C neu'n darparu gwasanaethau i S4C) ymgynghori ag Adran Gyfreithiol S4C ar gyfer unrhyw ymholiadau cyfreithiol penodol mewn perthynas â lles Pobl Agored i Niwed.

1.3 Mae'r Polisi hwn, yn ymdrin â Phobl Agored i Niwed sy'n cynnwys Oedolion bregus a phlant. Ond, pan yn ymdrin â phlant yn benodol, dylid ymgynghori â Pholisi S4C ar Amddiffyn Plant hefyd, sydd ar gael ar wefan cynhyrchu S4C.

1.4 Mae Cod Darlledu Ofcom yn nodi bod ystyr "Pobl Agored i Niwed" yn amrywio, ond gall gynnwys y rheiny ag anawsterau dysgu, y rhai â phroblemau iechyd meddwl, pobl â niwed i'r ymennydd neu fathau o ddementia, pobl sydd wedi dioddef trawma neu sy'n sâl neu â salwch terfynol. Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn gan y gall pobl fod yn agored i niwed o achos henaint neu pan fyddant yn wynebu'r hyn y gwelant yn sefyllfaoedd y tu hwnt i'w cylch cysur. Gellir ystyried hefyd fod pobl sydd wedi dioddef profedigaeth yn ddiweddar iawn yn bobl sy'n agored i niwed.

1.5 Wrth weithio gyda Phobl Agored i Niwed, ac yn arbennig pan fyddwn yn eu cynnwys yn ein cynnyrch, mae S4C yn ymrwymo i sicrhau bod ei dyletswydd gofal i'r bobl hynny yn cael ei chyflawni'n briodol.

1.6 Bydd yn ofynnol i'r holl staff S4C hynny y mae eu gweithgareddau'n golygu eu bod yn dod i gysylltiad â phobl agored i niwed, lofnodi'r datganiad sydd wedi'i gynnwys ar y Ffurflen Hunan Ddatganiad Diogelu Pobl Agored i Niwed sydd wedi'i hatodi yn Atodiad 1.

## 2. Comisiynu

2.1 Fel rhan o'r broses gomisiynu, dylai cynhyrchwyr drafod unrhyw fwriad i gynnwys Pobl Agored i Niwed yn y rhaglen gyda'r Comisiynydd perthnasol yn y lle cyntaf, er mwyn bod S4C yn medru sicrhau bod y camau priodol wedi eu cymryd.

2.2 Lle'n briodol, a gan ystyried natur y rhaglen, fe ddylai'r cynhyrchydd baratoi protocol yn manylu ar y camau sydd i'w cymryd gan y cwmni cynhyrchu er mwyn sicrhau lles unrhyw Bobl Agored i Niwed fydd yn rhan o'r cynhyrchiad ("y Protocol").

2.3 Mae S4C yn disgwyl y bydd y Protocol yn cymhwyso egwyddorion y polisi hwn i amgylchiadau'r cynhyrchiad penodol. Fe ddylai'r cwmni cynhyrchu cyfeirio at canllawiau lles cyfranwyr S4C hefyd.

2.4 Bydd gofyn i'r cynhyrchydd ddarparu'r Protocol i S4C cyn cychwyn cynhyrchu'r rhaglen.

## 3. Cydsyniadau

3.1 Wrth gynllunio i weithio gyda Phobl Agored i Niwed, dylid rhoi ystyriaeth benodol i sut ddylid mynd ati i gael y cydsyniadau angenrheidiol h.y. y cydsyniad i ffilmio a darlledu'r cyfryw unigolion. Yn rhan o'r weithdrefn sicrhau cydsyniad, rhaid darparu i gyfranwyr bregus, yr holl wybodaeth y byddai'n arferol rhoi i gyfranwyr sydd ddim i'w ystyried yn fregus.

3.2 Rhaid ystyried p'un ai oes gan y cyfranwr y gallu meddyliol i rhoi cydyniad gwybodus yn iawn. Mai'n bosib, o ganlyniad i'r bregusrwydd, na fedr y cyfranwr wneud y penderfyniad; medr hyn fod oherwydd anhwylder meddwl, niwed i'r ymennydd, anabledd dysgu, trawma, salwch difrifol neu derfynol. Os ystyrir nad yw'r gallu meddyliol gan Unigolyn Agored i Niwed i ddarparu cydsyniad gwybodus, neu bod ei gyflwr yn ansefydlog/debygol o ddirywio, yna dylid ceisio caniatâd gan brif ofalwr oedolyn yr Unigolyn Agored i Niwed, oni bai ei fod yn warantedig i fwrw ymlaen hebddo.

3.3 Yn debyg i egwyddorion amddiffyn plant, fel rheol gyffredinol, ni ddylid gofyn cwestiynau i Bobl Agored i Niwed ynglŷn â materion preifat (gweler isod), materion sy'n debygol o fod uwchlaw eu gallu neu sy'n debygol o beri risg iddynt, hebl cydsyniad eu prif ofalwr oedolyn.

3.4 Mewn rhai sefyllfaoedd, gall fod angen ymgynghori â chynghorydd proffesiynol yr Unigolyn Agored i Niwed, er enghraifft meddyg teulu neu seicotherapydd.

3.5 Os oes unrhyw amheuaeth ynglŷn â phwy sy'n gallu darparu'r cydsyniad gofynnol, yna dylid gofyn am gyngor gan Adran Gyfreithiol S4C.

3.6 Dylai'r ystyriaethau yn ymwneud â chydsyniad fod yn broses barhaus trwy gydol y cynhyrchiad neu'r ymrwymiad perthnasol. Os yw natur y cynhyrchiad yn newid, yna dylid ymgynghori â'r Unigolyn Agored i Niwed a/neu ei brif ofalwr oedolyn i wirio bod y cydsyniad yn ddilys o hyd. Yn yr un modd, os yw cyflwr yr Unigolyn Agored i Niwed yn dirywio yn ystod cyfnod y cynhyrchiad, yna dylid rhoi ystyriaeth ddifrifol i addasrwydd a) parhau i weithio gyda'r Unigolyn Agored i Niwed, a b) defnyddio'r cynnwys h.y. addasrwydd i ddarlledu. Dylai lles yr Unigolyn Agored i Niwed fod yn brif ystyriaeth yn ystod ffilmio, wrth ddarlledu a thu hwnt, felly mae'n bwysig cynnal deialog gyda'r Unigolyn Agored i Niwed a/neu ei brif ofalwr oedolyn.

## 4. Gallu

4.1 Mae gallud unigolyn yn cyfeirio at ei allu meddyliol (neu ddiffyg gallu) i wneud penderfyniad gwybodus ar sail y wybodaeth sydd ar gael iddo sy'n berthnasol i'r penderfyniad. Ystyrir fod person yn methu gwneud penderfyniad os; nad ydynt yn medru deall y wybodaeth sy'n berthnasol i wneud y penderfyniad; neu yn methu cadw a phwyso a mesur y wybodaeth honno fel rhan o'r broses o wneud y penderfyniad, neu'n methu cyfleu ei benderfyniad yn effeithiol (boed hynny drwy siarad, defnydd arwyddiaith, neu unrhyw fodd arall) gan ddeall yr hyn sydd ymhlyg â'r penderfyniad hwnnw.

4.2 Os nad yw'n amlwg fod gan Unigolyn Agored i Niwed allu digonol i gydsynio i ffilmio a/neu ddarlledu'r cynnwys, yna cynghorir bod yr unigolyn hwnnw'n cael ei asesu gan weithiwr proffesiynol annibynnol ag arbenigedd yn y cyflwr neu faes anabledd penodol hwnnw.

4.3 Os ystyrir bod gan yr Unigolyn Agored i Niwed y gallu digonol i gydsynio, yna dylid esbonio diben y cynhyrchiad neu'r ffilmio a natur y rhaglen yn glir i'r unigolyn gan aelod hyfforddedig o'r tîm cynhyrchu a/neu arbenigwr perthnasol, ac ym mhresenoldeb prif ofalwr oedolyn yr Unigolyn Agored i Niwed.

4.4 Gall fod yn briodol i'r Unigolyn Agored i Niwed a/neu ei brif ofalwr oedolyn gael y cyfle i weld y cynnwys perthnasol, a chael y cyfle i ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau ar y cynnwys a sut mae'n portreadu'r Unigolyn Agored i Niwed. Gall fod yn syniad da amlinellu diben y ffilmio mewn llythyr y gellir ei roi wedyn i'r Unigolyn Agored i Niwed a/neu ei brif ofalwr oedolyn.

4.5 Os ystyrir bod yr Unigolyn Agored i Niwed heb allu, ac felly nid yw'n gallu rhoi cydsyniad gwybodus, neu ei fod yn debygol o golli'r gallu oherwydd dirywiad yn ei gyflwr, , mae dyletswydd ar S4C, ynghyd â phrif ofalwr yr oedolyn, i ystyried effaith darlledu'r cynnwys ar yr Unigolyn Agored i Niwed. Dylid gofyn am gyngor o'r Adran Gyfreithiol am y camau perthnasol i'w gymryd.

## 5. Gweithio gyda Phobl Agored i Niwed

5.1 Gall fod angen cael cyngor gan y rheiny sy'n gyfarwydd â'r Unigolyn Agored i Niwed a natur ei gyflwr (medr hyn gynnwys aelodau'r teulu, aelodau addas o dîm amlddisgyblaethol yr unigolyn e.e. gweithiwr cymdeithasol, cyd-lynydd gofal, neu eiriolwr iechyd meddwl annibynnol) er mwyn deall ei ymddygiad yn well a gwybod beth yw'r ffordd orau i ymateb i'r ymddygiad hwnnw.

5.2 Gall fod angen i staff gynhyrchu gael hyfforddiant neu arweiniad addas i'w galluogi i ddelio'n addas â sialensau sydd yn dod yn sgil gweithio gyda phobl bregus. Dylai technegwyr ac aelodau criw gael eu briffio ar sut i weithio'n sensitif gyda phobl bregus yn ystod cynyrchiadau.

5.3 Mae dyletswydd gofal gan S4C i sicrhau bod Pobl Agored i Niwed yn cael cymorth digonol trwy gydol y cynhyrchiad. Dylid ymgynghori'n rheolaidd â Phobl Agored i Niwed, eu prif ofalwyr oedolion a/neu eu teuluoedd er mwyn cael gwybod yn gyson am sefyllfa'r Unigolyn Agored i Niwed ac i gael help a chymorth lle bo angen.

5.4 Dylai cynhyrchwyr ystyried p'un a ddylai'r fersiwn derfynol o unrhyw gynnwys wedi'i ffilmio gael ei ddangos i'r Unigolyn Agored i Niwed a/neu ei brif ofalwr oedolyn cyn y darllediad, er mwyn rhoi'r cyfle iddo drafod unrhyw bryderon ac ystyried effaith y darllediad ei hun. Fodd bynnag, ni ddylid camarwain yr Unigolyn Agored i Niwed i gredu bod rheolaeth olygyddol ganddo dros y cynnwys.

5.5 Gan ddibynnu ar natur y ffilmio a natur y rhaglen, dylid rhoi ystyriaeth i bu'n a allai'r broses ffilmio ei hun gael effaith niweidiol ar les yr Unigolyn Agored i Niwed. Gall fod yn briodol ymgynghori â'r rheiny sydd â gwybodaeth arbenigol am anghenion yr Unigolyn Agored i Niwed er mwyn penderfynu ar y ffordd orau i leihau unrhyw niwed neu ofid i'r Unigolyn Agored i Niwed, ac ystyried strategaethau i ddelio ag unrhyw senarios posibl a allai ddigwydd yn ystod y cynhyrchu.

5.6 Os yw'r Unigolyn Agored i Niwed yn dangos arwyddion o ofid o ganlyniad i'r ffilmio neu yn sgil presenoldeb y criw, yna dylid ystyried yn ofalus, yr angenrheidrwydd i stopio'r ffilmio dros dro er mwyn cymryd cyngor ag addasu fel bo'n briodol. Yn unol â chymal 4.4 uchod, dylai ymgynghori gyda arbenigwr i benderfynu ymlaen llaw pa gamau i'w cymryd pe bai'r Unigolyn Agored i Niwed yn dangos arwyddion o ofid yn ystod y ffilmio ond pan fod hyn yn rhan annatod o'r naratif a/neu yn nodweddiadol o gyflwr bregus yr Unigolyn Agored i Niwed.

5.7 Gall rhai materion/problemau ddod i'r amlwg yn ystod y broses gynhyrchu a dylid gwneud penderfyniad terfynol os dylid cynnwys hyn neu beidio drwy ystyried yr effaith fyddai'n cael ar y cyfrannwr bregus, pa mor adnabyddus yw'r ffeithiau yng nghymuned agos yr unigolyn, a pha gymorth sydd ganddynt o nawr ac ymlaen.

5.8 Yn sgil datgelu elfennau o bersonoliaethau unigolion, gall rhai cyfranwyr bregus gael eu hamlygu i feirniadaeth cyhoeddus cas yn y wasg, ar y we, neu ar gyfryngau cymdeithasol. Gall hyn gael effaith seicolegol negyddol ar unigolion fel hyn ac felly, pan fod angen, dylid cynnal asesiadau seicolegol i sicrhau bod unigolion yn ddigon cryf i ymdopi ag unrhyw ganlyniadau posib o'r profiad.

5.9 Er mwyn darparu tystiolaeth o sut caiff diogelwch a lles cyfranwyr bregus ei ddelio ag ef, mae'n arfer dda i gofnodi'r wybodaeth.

**6. Preifatrwydd**

6.1 Os yw cynnwys yn golygu datgelu gwybodaeth bersonol yn ymwneud ag Unigolyn Agored i Niwed, gall fod yn briodol sicrhau cydsyniad yr Unigolyn Agored i Niwed i'r cyfryw ddatgelu, yn ogystal â chydsyniad ei brif ofalwr oedolyn. Mae yna amgylchiadau cyfyng lle byddmodd cyfiawnhau bwrw ymlaen heb gydsyniad yr Unigolyn Agored i Niwed, ond bydd yn rhaid sicrhau cydsyniad y prif ofalwr (sy'n oedolyn) fodd bynnag. Yn sgil amgylchiadau lle mae modd bwrw ymlaen heb gydsyniad yr Unigolyn Agored i Niwed, fe caiff pob achos ei farnu yn ôl ei rinweddau ei hun, ac fe argymhellir cysylltu â adran gyfreithiol S4C yn yr achosion yma.

6.2 Dylid ystyried os oes posibilrwydd y byddai'r cynnwys yn datgelu gwybodaeth am hunaniaeth neu leoliad y cyfrannwr bregus ac mi ddylai gwybodaeth am gyfranwyr bregus, eu gofalwyr, ffrindiau ac unrhyw berthnasau eraill gael eu gwarchod gan fesurau addas.

7. **Anhysbysrwydd**

7.1 Mewn rhai sefyllfaoedd, dylid ystyried os dylid caniatáu anhysbysrwydd i gyfranwyr bregus. Dim ond os oes yna gyfiawnhad golygyddol y dylid cynnig hyn a rhaid cytuno ar ehangder yr anhysbysrwydd. Dylid hefyd sicrhau bod modd anrhydeddi'r anhysbysrwydd cyn cytuno i ganiatáu'r hawl.

7.2 Mae gan ddioddefwyr a dioddefwyr honedig o droseddau megis trais rhywiol a'r rhan fwyaf o droseddau gydag elfen rywiol, yr hawl i gael eu hadnabod fel dioddefwyr y troseddau hynny er gwaethaf os yw'r drosedd honedig wedi ei gofnodi gyda'r heddlu ai peidio. Mae dioddefwyr a dioddefwyr honedig o anffurfio organau cenhedlu benywod ("female genital mutilation"), priodas gorfodol a masnachu mewn pobl ("human trafficking"), hawl gyfreithiol i anhysbysrwydd awtomatig mewn cysylltiad â'r troseddau yna. Yn ogystal, mae athrawon sydd wedi eu cyhuddo o drosedd yn erbyn disgybl cofrestredig yn yr un ysgol â'r hawl i anhysbysrwydd gydol-oes, ond gall yr hawl yma ei godi mewn amryw o amgylchiadau.

8. **Gofal ôl-gynhyrchiad**

8.1 Os yw natur y cynnwys yn golygu bod cyfranwyr bregus a'r holl gyfranwyr eraill yn mynd i'w rhoi mewn sefyllfaoedd sydd yn eu hamlygu neu eu rhoi o dan bwysau, dylai trafodaethau gael eu cynnal rhwng y Cynhyrchwyr a'r Comisiynwyr perthnasol i greu cynllun ar gyfer gofal ôl-gynhyrchiad, cyn cychwyn cynhyrchu.

## 9. Gweithgarwch Ar-lein a’r Cyfryngau Cymdeithasol

9.1 Dylid ystyried diogelwch ar-lein wrth weithio gydag Unigolyn Agored i Niwed. Gan ddibynnu ar natur y rhaglen a natur cyfraniad yr Unigolyn Agored i Niwed, gall fod risg gynyddol i’r Unigolyn Agored i Niwed o ddioddef aflonyddu neu fwlio ar-lein, a dylid asesu hyn a’i liniaru lle bo modd.

9.2 Os oes cyfrifon cyfryngau cymdeithasol gan yr Unigolyn Agored i Niwed, yna cynghorir bod y defnydd priodol o’r cyfrifon cyfryngau cymdeithasol hynny’n cael eu trafod gyda’r Unigolyn Agored i Niwed a/neu ei brif ofalwr oedolyn, ac mewn rhai achosion gall fod yn briodol i’r cyfrifon cyfryngau cymdeithasol hynny gael eu hatal dros dro.

9.3 Os yw’r Unigolyn Agored i Niwed yn parhau â gweithgarwch yn y cyfryngau cymdeithasol yn ystod ffilmio a/neu ddarlledu, boed fel rhan o’r ymrwymiad ei hun neu yn gyffredinol, yna dylai’r Unigolyn Agored i Niwed a/neu ei brif ofalwr oedolyn gyfeirio at ‘Canllawiau S4C i Gyfranwyr ar Weithgarwch Ar-lein a’r Cyfryngau Cymdeithasol’ i weld arfer gorau.

**ATODIAD 1**

**S4C**

**Ffurflen Hunan Ddatganiad Diogelu Pobl Agored i Niwed**

Mae S4C [a **[nodwch enw'r cwmni os yn briodol]** (y "Cwmni")] wedi ymrwymo i ddiogelu lles Pobl Agored i Niwed.

Bydd yn ofynnol i **[nodwch enw'r unigolyn]** ("Chi") lenwi'r ffurflen hon os ydych yn ymgymryd â rôl sy'n cydweddu â meini prawf A neu B isod:-

**Meini Prawf A**

Bydd Eich rôl yn golygu y byddwch yn gweithio'n uniongyrchol â Phobl Agored i Niwed mewn sefyllfa lle gellir gofyn yn gyfreithlon am dystysgrif safonol neu fanylach y GDG h.y. lle mae'r swydd yn un sydd wedi'i 'heithrio' o Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 fel y'i rhestrwyd yn Neddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Gorchymyn Eithriadau) 1975 fel y'i diwygiwyd. Mae hyn yn cynnwys y rheiny sy'n ymgymryd â Gweithgarwch a Reoleiddir fel y'i diffinnir yn Neddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diogelu Rhyddid 2012.

Mae'n ofynnol i Chi ddatgelu pob euogfarn (wedi'i ddisbyddu a heb ei ddisbyddu), rhybuddiadau, ceryddon a rhybuddion terfynol ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall nad yw'n ymwneud ag euogfarn nad yw'n gymwys i'w hidlo.

**Meini Prawf B**

Nid yw Eich rôl fel arfer yn golygu y byddwch yn gweithio gyda Phobl Agored i Niwed ond gallwch ar brydiau ddod i gyswllt dan oruchwyliaeth â Phobl Agored i Niwed. Nid oes angen i Chi ddatgelu euogfarnau wedi'u disbyddu yn yr amgylchiadau hyn.

**Hunan Ddatganiad**

Yr wyf yn datgan:-

1. Nid oes gennyf unrhyw euogfarnau yn y DU nac mewn unrhyw wlad arall. (Bydd angen i chi ddatgelu'r holl euogfarnau, gan gynnwys y rheiny sydd wedi eu disbyddu, os yw meini prawf A yn berthnasol[1] )

2. Nid wyf erioed wedi bod yn destun camau disgyblu na chosb yn ymwneud â Phobl Agored i Niwed. Nid yw fy enw ar y Gofrestr Troseddwyr Rhyw ac nid wyf yn hysbys i'r Heddlu nac unrhyw Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdod Lleol, nac unrhyw gyflogwr, fel risg gwirioneddol neu botensial i Bobl Agored i Niwed.

3. Yr wyf yn cadarnhau nad wyf wedi fy ngwahardd o waith a reoleiddir â Phobl Agored i Niwed yn unol â Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf (DDGH)2006.

[1] Os yw meini prawf B yn berthnasol, mae Gorchymyn 1975 (Eithriadau) Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (fel y'i diwygiwyd yn 2013) yn amodi bod rhai euogfarnau wedi'u disbyddu a rhybuddiadau yn rhai 'gwarchodedig' ac nid oes rhaid eu datgelu i gyflogwyr, ac ni ellir eu hystyried. Gellir gweld Arweiniad a meini prawf ar hidlo'r rhybuddiadau a'r euogfarnau hyn ar wefan Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd y Llywodraeth).

4. Os yn y dyfodol y bydd unrhyw un o bwyntiau 1-3 yn gymwys, yna byddaf yn hysbysu S4C [a'r Cwmni] ar unwaith.

Mae S4C [a'r Cwmni] yn cadw'r hawl i wirio'r wybodaeth a roddir gennyf ar y ffurflen hon. Trwy lofnodi'r ffurflen hon, rwyf yn rhoi caniatâd i S4C [a'r Cwmni] brosesu a chadw'r data at ddibenion diogelu Pobl Agored i Niwed a rheoli risg iechyd a diogelwch yn unol â Deddfau a Rheoliadau Diogelu Data.

Yr wyf yn cadarnhau fy mod wedi ymrwymo i nodau ac amcanion S4C [a'r Cwmni] wrth amddiffyn a diogelu Pobl Agored i Niwed rhag cam-drin. Yr wyf yn deall yr ystyrir bod rhoi gwybodaeth ffug yn fwriadol neu hepgor gwybodaeth yn dor-ymddiriedaeth ac y gallai arwain at fy niswyddo a/neu derfynu fy nghytundeb cyflogaeth/gwasanaeth ar unrhyw adeg yn y dyfodol. Yr wyf yn datgan fod y wybodaeth yr wyf wedi'i rhoi ar y ffurflen hon yn gywir.

Llofnodwyd………………………………………….. (Chi)

Dyddiedig……………………………………………

**Os na allwch wneud y datganiad hwn, rhaid i Chi hysbysu S4C [a'r Cwmni] ac efallai na allwch, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, weithio ar unrhyw raglen sy'n golygu gweithio gyda, neu fod mewn cysylltiad â Phobl Agored i Niwed.**

**Diffiniadau**

"Plentyn" yw unigolyn sydd o dan 18 mlwydd oed fel nodir yn adran 60(1) y DDGH 2006.

"Oedolyn bregus" ydy unigolyn sydd:

"Pobl Agored i Niwed" yw unigolion sy'n

- 18 oed neu'n hŷn; ac
- yn destun gweithgarwch a reoleiddir fel y'i diffinnir gan baragraff 7 (1) o Atodlen 4 y DDGH 2006.